Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Tegwch, Hawliau a Chyfrifoldebau

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb

2013 -2014

Gellir cael yr adroddiad hwn ac unrhyw ddogfennau cefnogol mewn ieithoedd a ffurfiau eraill ar gais

Cysylltwch â'r:
Adran Cyfathrebu Corfforaethol
Ebost: bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk
Ffôn: 01248 384 939
Ffacs: 01248 384 731

Cynnwys Tudalen

Cyflwyniad	3
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr • Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd	4
Prif bethau a gyflawnwyd yn ystod 2013/14	5
Ein Hamcanion Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	6
Monitro ein Cynnydd	7
Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau a Lleihau Anghydraddoldebau mewn Cyflogau	10
Gwybodaeth Cydraddoldeb	12
Asesu Effaith	15
Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth	17
Iaith	20
Hybu Mwy o Gydraddoldeb o ran Cyfeiriadedd Rhywiol	21
Unrhyw Wybodaeth Arall sy'n Berthnasol i Fodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol	22
Ein gwaith ar y cyd â phartneriaid sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru	30
Y Pwyslais i'r Dyfodol	31

Atodiadau

Atodiad A	Cynnydd tuag at Gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb
Atodiad B	Gwybodaeth yn ymwneud â'n Gweithlu
Atodiad C	Amcanion Cydraddoldeb BIPBC yn ôl Nodweddion Gwarchodedig

Enghreifftiau o arfer da

Trwy gydol yr adroddiad hwn, fe welwch flychau â bwlb golau fel y llun isod. Dyma ble rydym wedi casglu enghreifftiau o arfer da yn y sefydliad sy'n dangos sut rydym yn gweithio i fodloni gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol ac i wella profiadau cleifion trwy gael gwared ar rwystrau a hybu cydraddoldeb cyfleoedd.

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2013 i fis Mawrth 2014. Gwnaed cynnydd da eleni. Mae ein pwyslais wedi bod ar wella gallu yn y sefydliad i ddarparu profiadau gwell i gleifion ac i ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol yn ddyfnach yn y sefydliad, fel sy'n cael ei fynegi yn ein Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2012-16) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/59484

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un anodd i'r Bwrdd Iechyd, gyda'r sylw a ddaeth yn sgîl cyhoeddi adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2013. Gwelwyd llawer o newid ers hynny ac rydym yn defnyddio'r cyfle hwn i fynd â'r agenda cydraddoldeb a hawliau dynol yn ei blaen. Mae Bwrdd BIPBC wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb cyfleoedd a diogelu a hyrwyddo hawliau pob unigolyn i gyflawni gwell canlyniadau i bawb. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith a wnaed gennym i gefnogi'r amcanion hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar ddechrau'r flwyddyn, cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mewn partneriaeth â'n staff, ar ddiben, gwerthoedd ac ymrwymiadau newydd i gefnogi ein nod gyffredin a'r weledigaeth a rennir - **i wella iechyd a darparu gofal rhagorol.** Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y cleifion sy'n cael eu trin gennym yn cael gofal diogel, o ansawdd uchel, a hynny ag urddas a thosturi ac mewn ffordd sy'n parchu eu hunaniaeth.

Rydym yn parhau i atgyfnerthu arweinyddiaeth a diwylliant yn y sefydliad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Rydym yn cydweithio'n agos â staff a phartneriaid i ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol i'n ffyrdd o weithio. Rydym yn atgyfnerthu'r ffordd y mae cydraddoldeb yn cael ei ddeall a'i ymgorffori i waith ledled y sefydliad ac wedi ymgysylltu fwyfwy â phobl â nodweddion gwarchodedig fel ein bod yn deall anghenion unigol yn well i arwain gwelliannau. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o'n cynnydd eleni ac mae hefyd yn dynodi'r meysydd hynny sydd wedi peri'r her fwyaf. Rhydd gyfle i ni rannu ein cynnydd a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud dros y flwyddyn sydd i ddod. Mae llawer i'w wneud ond rydym yn hyderus ein bod mewn sefyllfa dda i gynnal ein cynnydd. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau o ran cynnwys yr adroddiad hwn, anfonwch nhw drwy'r post neu e-bost at:

Sally Thomas, Pennaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bloc Preswylfeydd, Ysbyty Abergele, Ffordd Llanfair, Abergele, CONWY. LL22 8DP sally.thomas4@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru. Mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau cychwynnol, cymuned, iechyd meddwl ac ysbytai llym i boblogaeth o ryw 678,000 o bobl ar draws Gogledd Cymru a nifer sylweddol o ymwelwyr â'r ardal. Ein diben yw gwella iechyd a darparu gofal rhagorol. Rydym yn:

- Cyflogi oddeutu 16,700 o staff
- Rheoli cyllideb o oddeutu £1.2 biliwn
- Cynnal tri ysbyty cyffredinol dosbarth (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam)
- Darparu gofal mewn 18 ysbyty llym a chymunedol arall a rhwydwaith o dros 90 o ganolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau iechyd cymunedol ac unedau iechyd meddwl
- Cydlynu gwaith 114 practis meddyg teulu a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr.

I helpu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymuned i gydweithio â'i gilydd yn effeithiol i gefnogi trigolion, mae gwasanaethau'r GIG y tu allan i ysbytai wedi eu trefnu yn 14 ardal leol. Mae'r ardaloedd lleol fel a ganlyn:

Ynys Môn
Arfon, Dwyfor, Meirionnydd
Gorllewin Conwy, Dwyrain Conwy
Gogledd Sir Ddinbych, Canol/De Sir Ddinbych
Gogledd-orllewin Sir y Fflint, De Sir y Fflint a Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint
Gorllewin a Gogledd Wrecsam, Tref Wrecsam, De Wrecsam

Mae Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhoi'r diweddaraf ar ein cynnydd fel Bwrdd Iechyd a gellir gweld yr adroddiad diweddaraf ar gyfer 2013/14 ar ein gwefan yn: www.pbc@cymru.nhs.uk neu drwy gysylltu â'n Hadran Cyfathrebu Corfforaethol (manylion cyswllt ar y clawr).

Mae ein Hadroddiad Blynyddol Iechyd Cyhoeddus diweddaraf ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/40900

Mae'r ail Ddatganiad Blynyddol Cydraddoldeb ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn crynhoi'r camau a gymerwyd yn ystod 2013/14 i ddarparu gofal diogel, o ansawdd uchel i'n cleifion ledled Gogledd Cymru a gellir ei weld yn:http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/document/246408

Prif bethau a gyflawnwyd yn ystod 2013/14

Ymhlith y prif bethau a gyflawnwyd, mae:

- atgyfnerthu'r diwylliant yn y sefydliad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau;
- cydweithio'n agos â Grwpiau Rhaglen Glinigol i feithrin gallu a dealltwriaeth ynghylch materion cydraddoldeb a hawliau dynol;
- bellach mae dros 5,000 o'n staff wedi cwblhau'r pecyn hyfforddi cydraddoldeb a hawliau dynol gorfodol yn llwyddiannus;
- ymgorffori Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol BIPBC, yn cynnwys eu defnyddio fel mater o drefn wrth ddatblygu prosiectau;
- gwella cydraddoldeb i bobl LGBT, yn cynnwys datblygu ein Rhwydwaith Staff LGBT a elwir yn 'Celtic Pride' a chodi ymwybyddiaeth drwy ddathlu Diwrnod IDAHOT;
- cydweithio'n agos â Stonewall Cymru i wella ein safle ar Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall;
- gwelliannau arwyddocaol yn ansawdd a maint y data nodweddion cydraddoldeb sydd gennym am ein staff ar ein systemau adnoddau dynol electronig;
- arwain prosiect ymchwil mawr i achos anghydraddoldeb cyflogau fel rhan o roi'n Cynllun Gweithredu Cyflog rhwng y Rhywiau ar waith yn y Bwrdd Iechyd;
- hybu cydraddoldeb ar draws Gogledd Cymru trwy weithio mewn partneriaeth, gyda phartneriaid y GIG yng Nghymru gyfan, a chyda phartneriaid sector cyhoeddus drwy Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru;
- dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol cydraddoldeb trwy bartneriaethau, ymgynghoriadau ac arwain gwaith prosiect;
- datblygu dogfennau gwybodaeth arfer da i ddarparu arweiniad cyson i sefydliadau Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru wrth roi'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus ar waith;
- datblygu cynllun gweithredu i'r sefydliad cyfan mewn ymateb i fodloni gofynion y Safonau ar gyfer Gwybodaeth a Chyfathrebu Hygyrch i Bobl sydd â Nam ar y Synhwyrau;
- cynnal yr ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol trwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb;
- dylanwadu ar weithgarwch cynllunio ac ystadau i godi ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus ac ymgorffori egwyddorion cynllun cynhwysol.

Gellir gweld mwy o fanylion am y cyflawniadau uchod a'u cysylltiad â'n hamcanion cydraddoldeb yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ein Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2012-16 ym mis Mawrth 2012. Cawsant eu datblygu ar y cyd â sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru yn dilyn adolygiad o adroddiadau cenedlaethol a lleol, llenyddiaeth a thystiolaeth arall; daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg o ran cydraddoldeb a chawsant eu diffinio ymhellach wrth ymgysylltu ar draws y sector gydag ystod eang o randdeiliaid.

Fe gynhaliom ddigwyddiad ymgysylltu pellach gyda'n partneriaid yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2013, gan wahodd ystod o randdeiliaid i glywed am y cynnydd a wnaethom. Mae copi o'r adroddiad am y digwyddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/59500. Fe gymerom ni'r cyfle hefyd i ymgynghori â rhanddeiliaid ar nifer o ganllawiau arfer da yr oeddem wedi'u datblygu ar y cyd. Mae'r canllawiau hyn, sydd â'r nod o roi arweiniad cyson i sefydliadau Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru wrth roi'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus ar waith, bellach wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, ac maent yn cynnwys:

- Deg Awgrym Gorau - Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ac Ystyriaeth Briodol
- Deg Awgrym Gorau - Treuliau ar gyfer Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Deg Awgrym Gorau Monitro Cydraddoldeb
- Deg Awgrym Gorau ar gyfer Trefnu Digwyddiadau Hygyrch
- Deg Awgrym Gorau ar gyfer Hybu Cydraddoldeb mewn Ysgolion
- Sut i Gymryd Rhan mewn Cyrff Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cynnwys adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Canlyniadau ac Amcanion (gweler Atodiad A).

Rydym yn credu bod ein dull yn gynhwysol ac mae'r tabl yn Atodiad C yn dangos fod gennym o leiaf un amcan cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig deall nad yw ein hamcanion wedi eu cyfyngu i'r nodweddion gwarchodedig fel y diffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a'u bod yn ymestyn i gynnwys grwpiau eraill fel pobl digartref er enghraifft.

Monitro ein Cynnydd

Craffu

Mae'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn craffu ar gynnydd ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, sy'n un o is-bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Fforwm hefyd yn craffu trwy sesiynau "Canolbwyntio", pan fydd cynrychiolwyr o Grwpiau Rhaglen Glinigol (GRhG) yn cael eu gwahodd i gyflwyno eu cynlluniau gweithredu a'u cynnydd ar yr amcanion cydraddoldeb sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae aelodaeth y Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol, Aelod Annibynnol sy'n Hyrwyddwr Cydraddoldeb i ni, staff uwch o ddisgyblaethau gwahanol ar draws y Bwrdd Iechyd a chynrychiolydd o'n partneriaid Undebau Llafur ynghyd â rhanddeiliaid allanol sy'n cael eu cynrychioli gan y Cyngor Iechyd Cymuned a chynrychiolwyr o'n Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb a Rhwydwaith Staff LGBT Celtic Pride.

Mae materion o bwys o'r Fforwm Strategol yn cael eu hadrodd yn syth i'r Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol sy'n ysgrifennu at Gadeiryddion holl Is-Bwyllgorau eraill y Bwrdd a Phenaethiaid Staff i rannu blaenoriaethau cyfredol a chodi materion o bwys er mwyn gweithredu arnynt.

Yn ogystal â'r ffaith bod y Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Fforwm Partneriaeth Leol BIPBC, sy'n cynnwys rheolwyr a chynrychiolwyr Unedau Llafur yn monitro cynnydd, rydym yn adrodd yn rheolaidd wrth ein Rhwydwaith Rhanddeiliaid Cydraddoldeb a fu'n allweddol wrth ddatblygu ein hamcanion. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn, ac mae'n cynnwys unigolion a grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig ac eraill sydd wedi dweud eu bod yn fodlon cydweithio â ni ar hyn.

Yn y llun: aelodau BIPBC yn rhoi cyflwyniad i'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb mewn cyfarfod, yn ddiweddar.

Adolygu a Diwygio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r cynnydd tuag at ein hamcanion yn flynyddol ac yn cynnal adolygiad llawn o'r Cynllun yn ystod 2015, gan gydweithio â staff a defnyddwyr y gwasanaeth i ystyried gwybodaeth a gasglwyd yn cynnwys canlyniadau asesiadau effaith.

Craffu a Mesurau Eraill

(a) Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Mae Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru yn rhan annatod o'r fframwaith strategol pum mlynedd ar gyfer y GIG ac maent yn allweddol i danategu'r fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd, gweledigaeth a gwerthoedd GIG Cymru ar ei ffurf newydd.
Maent wrth wraidd i lywio gwelliant parhaus yn ansawdd a phrofiadau gwasanaethau a'r gofal y mae gan bobl Cymru hawl rhesymol i'w disgwyl. Mae'r Safonau presennol yn cynnwys nifer o themâu cyffredinol y mae sefydliadau a gwasanaethau angen eu hystyried ar draws ystod eu gweithgareddau, yn benodol, datblygiad cynaladwy, iaith a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae Adolygiad o Safonau ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru a'r Safonau Hanfodion Gofal yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae'r Tîm Cydraddoldeb wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad.

(b) Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae BIPBC wedi datblygu nifer o fesurau perfformiad (dangosyddion perfformiad allweddol) ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol yn y Bwrdd Iechyd. Adroddir arnynt i'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bob chwe mis.

Mae'r dangosyddion yn ein helpu i asesu cynnydd a pherfformiad yn BIPBC o ran gweithredu'r amcanion o fewn Grwpiau Rhaglen Glinigol ac Adrannau Cefnogi Corfforaethol, yn cynnwys sut maent yn bodloni gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru.

(c) Grwpiau Rhaglen Glinigol ac Adrannau Cefnogi Corfforaethol

Mae Grwpiau Rhaglen Glinigol ac Adrannau Cefnogi Corfforaethol yn cael eu harchwilio o ran y prif feysydd canlynol:

- Sut mae ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn nhrefniadau llywodraethu'r GRhG/Adrannau Cefnogi Corfforaethol , yn cynnwys dulliau o adrodd yn ôl i'r Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb (Is-grŵp y Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer BIPBC) a chysylltu â nhw
- Sut mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hybu yn y GRhG/Adrannau Cefnogi Corfforaethol a threfniadau i hyfforddi staff
- Sut mae'r GRhG yn chwilio am ffyrdd o leihau anghydraddoldebau iechyd, yn cynnwys sut a ble mae'r amcanion cydraddoldeb strategol wedi cyfrannu at gynlluniau gwasanaeth GRhG/Adrannau Cefnogi Corfforaethol
- Sut mae'r GRhG yn cymryd anghenion unigolion i ystyriaeth, gan gynnwys cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a staff, gan sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu'n gynhwysol ac yn cynrychioli'r holl nodweddion gwarchodedig
- Sut mae Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn arwain y broses o wneud penderfyniadau yn y GRhG/Adrannau Cefnogi Corfforaethol. Sut mae Bwrdd y GRhG yn ceisio sicrwydd ynglŷn â chydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb o ran datblygu polisïau a strategaeth

Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau a Lleihau Anghydraddoldebau mewn Cyflogau

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gan y Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddatblygu cynllun gweithredu a fyddai'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddeall yn well y rhesymau dros wahaniaethau rhwng cyflogau cyfartalog dynion a merched a nodwyd mewn adroddiadau a gyhoeddwyd.

Cyfarfu'r grŵp hwn yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r gwaith hyd yma wedi cynnwys y canlynol:

- Er mwyn cael gwell ddealltwriaeth am achos anghydraddoldeb cyflogau rhwng dynion a merched, rydym yn monitro gwaith prosiect ymchwil pwysig yn fanwl ym Mhrifysgol Caerdydd, sef WAVE (Merched yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi). Nod yr ymchwil yw darganfod pam mae systemau/patrymau cyflogaeth/gwahanu galwedigaethol yn parhau i gynhyrchu bylchau o ran cyflogau'r rhywiau ac edrych ar sut gallai newidiadau i'r gweithlu fynd i'r afael â hyn.
- Rydym hefyd wedi cynnal dadansoddiad mwy manwl o'r gwahaniaethau mewn cyflogau yr adroddwyd arnynt yn flaenorol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar staff 'Gweinyddol a Chlercyddol' ac 'Ystadau ac Atodol' gan fod y rhain yn ddau faes sy'n dangos bylchau sylweddol mewn canrannau cyflogau. Mae nifer o bwyntiau diddorol wedi codi o'r dadansoddiad hwn, yn cynnwys:
    - Mae'r grŵp Gweinyddol a Chlercyddol yn cynnwys nifer o staff uchel iawn (Tîm gweithredol a staff uwch/anghlinigol eraill): mae eithrio'r rhain (1% o'r cyflogau uchaf) o'r cyfrifiadau'n lleihau'r bwlch mewn cyflog cyfartalog o fwy na 13%;
    - Mae dros 83% o ferched yn y grŵp staff Gweinyddol a Chlercyddol yn ennill llai na £25,000 y flwyddyn, ond mae mwy na 40% o ddynion yn y grŵp yn ennill rhwng £25,000 a £50,000 y flwyddyn, gyda 12% o ddynion yn ennill mwy na £50,000 y flwyddyn;
    - Dim ond 16% o weithlu'r grŵp Gweinyddol a Chlercyddol sy'n ddynion, fodd bynnag, maen nhw'n ennill mwy na 22% o gyfanswm cyflogau'r grŵp.
    - Mae oddeutu traean (31.6%) y merched sy'n gweithio yn y grŵp staff Ystadau ac Atodol yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn, ond dim ond 9.3% o ddynion yn y grŵp hwn sydd yn yr un amrediad cyflog;
    - Mae mwy na dwywaith yn fwy o ddynion na merched yn ennill dros £50,000 y flwyddyn yn y grŵp Ystadau ac Atodol;
    - Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i wneud dadansoddiad manwl tebyg o'r grŵp staff 'Meddygol a Deintyddol'.
- Rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth fel rhan o'r cynllun gweithredu, ac ar hyn o bryd, rydym yn ystyried sut gallwn ni sefydlu'r prif themâu sy'n codi o'r adolygiad hwn.
- Rhoddodd nifer o ferched sydd mewn swyddi uwch yn BIPBC wybodaeth am eu gyrfaoedd a'u swyddi presennol, ac fe'i cyhoeddwyd, ynghyd â gwybodaeth arall ar ein gwefan allanol i gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol Merched ar 8 Mawrth 2014 (gweler http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/72534)
- Cynhaliom ddadansoddiad o ddata i gadarnhau bod Protocol Cyflog Cychwynnol BIPBC yn cael ei ddefnyddio'n gyson, ac ni ddynodwyd unrhyw wahaniaethau mewn cyflogau cychwynnol dynion a merched a benodwyd i swyddi'r Agenda ar gyfer Newid.

- Dangosodd gwaith meincnodi a wnaed â gwybodaeth am fwlch y cyflogau ar gyfer sefydliadau'r GIG yn yr Alban eu bod yn defnyddio mesur gwahanol i gyfrifo gwahaniaethau mewn cyflogau. Cynhaliom ymarfer i ail gyfrifo data cyflogau BIPBC yn defnyddio cyfartaledd cyfradd sylfaenol yr awr (fel sy'n cael ei ddefnyddio yn y GIG yn yr Alban), a dangosodd y canlyniadau batrwm tebyg i gyfrifiadau blaenorol yn defnyddio cymedr cyflog blynyddol.

Y darn nesaf o waith sydd â'r bwriad o gynnig dealltwriaeth ehangach am y ffactorau sy'n creu a chynnal gwahaniaethau rhwng cyflogau cyfartalog dynion a merched sy'n gweithio i BIPBC yw dadansoddi canlyniadau astudiaeth ymchwil fawr sy'n cael ei chynnal trwy holiadur a gafodd ei chylchredeg ymysg holl aelodau staff BIPBC. Mae'r holiadur hwn yn ystyried meysydd fel mynediad cyfartal at gyfleoedd hyfforddiant a dyrchafiad a pha un a yw staff yn teimlo bod rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud cynnydd yn y Bwrdd Iechyd. Y disgwyl yw adrodd ar y canlyniadau i'r Fforwm Strategol ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn diwedd 2014.

Mae BIPBC hefyd yn gweithio mewn nifer o feysydd ar y cyd â Chwarae Teg, sef yr elusen o Gymru sy'n helpu merched i gyflawni a ffynnu, fel rhan o'u menter "Cenedl Hyblyg" sydd wedi'i hariannu â chyllid Ewropeaidd. Bydd rhan allweddol o'r gwaith yn cynnwys ystyried sut mae gwella dealltwriaeth am gyfleoedd Gwaith Hyblyg, a mynediad atynt, yn effeithio ar grwpiau gwahanol (e.e. dynion a merched) a bydd hefyd â'r nod o geisio mesur effaith y gwelliannau o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar absenoldeb salwch y gellir eu priodoli i ymagwedd fwy hyblyg at amseroedd a phatrymau gwaith.

Un o'r camau sydd wedi'i gwblhau eisoes yw adolygu ein Polisi a'n Gweithdrefn Gweithio Hyblyg i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf i ddeddfwriaeth a'i fod yn hybu dealltwriaeth well, er enghraifft, o ran y gofyniad i gofnodi ceisiadau i weithio'n hyblyg ar ESR fel y gallwn fonitro'r rhai sy'n manteisio ar drefniadau hyblyg. Caiff hyn ei amlygu hefyd yn ystod gweithdai i reolwyr sy'n cael eu rhoi ar brawf mewn dau faes - GRhG Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a'r Adran Gwybodeg.

Bydd gwaith y cynllun peilot hefyd yn cynnwys holiadur staff sydd â'r bwriad o ystyried i ba raddau y mae staff yn deall ein polisi a beth yw'r rhwystrau at weithio'n hyblyg yn BIPBC o safbwynt staff ac o safbwynt rheolwyr fel ei gilydd.

Adroddir ar ganlyniadau'r gwaith hwn i'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Rhagfyr 2014 a chânt eu defnyddio i lywio sut caiff y prosiect ei arwain yn y dyfodol ar draws y sefydliad cyfan.

Gwybodaeth Cydraddoldeb

Ein Rôl fel Darparwr Gwasanaeth

Mae gwybodaeth cydraddoldeb yn ddata sy'n ymwneud â phryderon a digwyddiadau ac mae'n cael ei chofnodi ar system adrodd electronig o'r enw Datix.

Cynhaliodd timau Cydraddoldeb a Phryderon BIPBC ymarfer peilot i roi system ar brawf ar gyfer cipio gwybodaeth cydraddoldeb o ran pryderon sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig. Roedd y gwaith hwn yn

Mae rhwystrau'n dal i fodloni o ran casglu data cydraddoldeb fel mater o drefn sy'n ymwneud â chleifion gan gynnwys:

- Bydd natur yr hyn yr adroddir arno neu sy'n cael ei godi'n effeithio ar p'un a oes modd casglu data cydraddoldeb. Er enghraifft, os cŵyn yw'r hyn sydd dan sylw, yna y claf (neu ffrind neu berthynas) fydd yr un sy'n codi'r pryder fel arfer ond nid oes angen i ni wybod am eu nodweddion nhw;
- Mae tair system wahanol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn BIPBC ar gyfer cofnodi gwybodaeth cleifion; mae'r systemau hyn yn bodoli yn sgîl y tair Ymddiriedolaeth GIG flaenorol ac maent yn cadw data mewn fformatau gwahanol.
- Bydd y wybodaeth yr ydym yn awyddus i'w chasglu'n cynnwys data sy'n golygu bod modd adnabod cleifion sy'n codi materion i'w hystyried o ran Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelu Data.

Gwnaeth gwybodaeth fonitro o'r system adrodd ar ddigwyddiadau ein galluogi i nodi'r angen i roi arweiniad i staff sy'n cael eu difrïo gan gleifion ar sail hil. Gwnaethom weithio'n agos gyda'n Tîm

Profiad cleifion

Mae adborth yn caniatáu i ni wneud gwelliannau pan fydd angen. Rydym yn casglu adborth mewn nifer o ffyrdd:

- **Cardiau sylwadau** Mae'r cardiau hyn ar gael mewn ardaloedd i gleifion mewnol ac allanol yn yr ysbyty ac maent yn ffordd o gael gwybod am sylwadau neu awgrymiadau.
- **Storïau Cleifion** Mae'r straeon hyn yn caniatáu i gleifion a/neu berthnasau roi gwybod i ni sut deimlad yw derbyn gofal neu wasanaeth ac maent yn negeseuon pwerus sy'n ein hatgoffa bod pob claf yn unigolyn ac am yr effaith y gallwn ei chael ar eu bywydau. Mae stori claf yn disgrifio profiad defnyddiwr gwasanaeth byddarddall wedi'i datblygu eleni a'i chylchredeg yn eang er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau a welodd yr unigolyn hwn tra bu yn yr ysbyty.
- **Arolygon** Cafodd arolwg Cymru Gyfan ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod modd i gleifion roi adborth ar eu gofal. Gwnaethom gyflwyno'r arolwg yn y lle cyntaf yn y wardiau cleifion mewnol yn ein tri ysbyty cyffredinol dosbarth ac yn ein prif glinigau i gleifion allanol ym mis Awst 2013.

Ein Rôl fel Cyflogwr

Caiff gwybodaeth yn ymwneud â nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu ei chasglu yn rhan o'r broses recriwtio trwy system genedlaethol sy'n cael ei galw'n NHS Jobs ac mae hon hefyd yn ein galluogi i ddeall proffil pobl sy'n gwneud cais i weithio i ni a pha un a fyddant yn llwyddiannus ai pheidio.

Rydym wedi lobïo dros newidiadau i NHS Jobs er mwyn sicrhau bod modd i ni gydymffurfio â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ond nid yw'r system dal yn caniatáu i ni wahanu ymgeiswyr mewnol oddi wrth rai allanol ac mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i adrodd ar staff sydd wedi gwneud cais i gael dyrchafiad a pha un a ydynt yn llwyddiannus ai pheidio.

Mae lefel y datganiad o ran gwybodaeth cydraddoldeb ar yr ESR yn amrywio ar draws nodweddion a daeth hyn yn sgîl y wybodaeth a gafodd ei throsglwyddo i system ESR o sefydliadau blaenorol pan gafodd BIPBC ei ffurfio yn 2009.

Rydym wedi codi lefelau hyder er mwyn cynyddu datgelu data cydraddoldeb am weithwyr er mwyn bodloni gofynion Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol yng Nghymru.



Mae BIPBC yn parhau i gyflwyno system Hunanwasanaeth i Weithwyr er mwyn i staff weld a diweddaru meysydd penodol ar eu cofnod eu hunain yn ESR. Mae

Mae ESR yn system genedlaethol ar gyfer y GIG yn y DU. Nid oes unrhyw feysydd ar ESR ar hyn o bryd i gofnodi nodweddion Ailbennu Rhywedd, ac nid oes unrhyw ddarpariaeth i gipio gwybodaeth am staff sydd â chyfrifoldebau gofalu. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i lobïo trwy gydol y flwyddyn dros newid systemau fel bod modd i ni gyflawni ein dyletswyddau adrodd statudol yn well.

Dechreuodd ymarfer glanhau data mawr o ran data cydraddoldeb gweithwyr ym mis Rhagfyr 2012. Mae hyn wedi ein galluogi i gael gwell ddealltwriaeth am broffil staff sy'n gweithio i ni a bydd hyn yn helpu i lywio amcanion cynllunio'r gweithlu a chydraddoldeb yn y dyfodol. Cafodd y gwaith hwn ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2013 ac mae hyn wedi arwain at

Mae staff o'r Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol BIPBC yn arwain prosiect sydd â'r nod o ddatblygu adroddiadau cyflogaeth safonol i'r holl sefydliadau GIG yng Nghymru a fydd yn caniatáu meincnodi rhwng sefydliadau eraill ac yn erbyn data Cymru Gyfan na fu ar gael yn flaenorol.

Asesu Effaith

Ein nod yw sicrhau bod ein staff yn deall egwyddorion Asesu Effaith Cydraddoldeb (EqIA), ac nad yw'n broses gymhleth. Proses strwythuredig ydyw sy'n ceisio sicrhau, cyn gynted â phosibl, pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, yn datblygu strategaeth neu bolisi, neu'n gwneud unrhyw beth arall sy'n effeithio ar ein defnyddwyr gwasanaeth neu staff, ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd deg, atebol a thryloyw gan ystyried anghenion a hawliau'r rhai a allai fod wedi cael eu heffeithio.

Ym mis Mai 2013, cytunodd Bwrdd BIPBC ar newidiadau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu o ran cadw at y dyletswyddau cydraddoldeb penodol, lle bo gan y Bwrdd neu unrhyw un o'i is-bwyllgorau ofynion penodol erbyn hyn o ran Asesu Effaith Cydraddoldeb. Mae

Caiff Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn ymwneud â phrosiectau mawr gan gynnwys "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid" eu cyhoeddi ochr yn ochr â dogfennaeth brosiect arall ar ein gwefan. Rydym hefyd yn gwahodd pobl sydd â diddordeb mewn Asesiadau penodol i gysylltu â ni er mwyn cael copi – gweler http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/73969

Mae'r Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol yn parhau i gynnal gweithdai sgiliau rheolaidd ac i roi cymorth i staff sy'n gysylltiedig â chynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Mae lefel y gwelliant o ran deall yr angen am asesiadau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chynnal asesiadau effaith yn gadarnhaol iawn.

Cafodd asesiad o Effaith Cydraddoldeb ei gynnal o ran y Ganolfan Goffa ym Mlaenau Ffestiniog lle cafodd materion yn ymwneud â mynediad, cludiant a

Cafodd Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb o ran adeiladu'r Marwdy yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC) eu paratoi, sy'n weithredol ers Ionawr 2013, ac adeiladu'r Labordy Patholeg (YGC) sy'n weithredol ers Gorffennaf 2013. Gwnaeth adleoli Gwasanaethau Marwdy a Phrofedigaeth ganiatáu i'r meirw gael eu trin ag urddas a pharch gan fod codi'r adeilad yn cynnwys technoleg fodern. Caiff perthnasau ardal dawel a phreifat

Rydym yn awyddus i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr agendâu 'cydraddoldeb' ac ' ansawdd' trwy ddatblygu ein hofferyn asesu effaith integredig ymhellach. Rhoi ein strategaeth gwella ansawdd ar waith yw ein blaenoriaeth bennaf eleni ac mae'n gyfle i ni ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol yn y broses o'i chymhwyso.

Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth

eDdysgu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol o ran sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2011, yn ei gwneud hi'n ofynnol i BIPBC:

"..gwneud trefniadau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth am y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol ymysg (ein) gweithwyr."

Ym mis Chwefror 2012, cafodd "Tegwch, Hawliau a Chyfrifoldebau" ei lansio ar draws BIPBC fel ein pecyn hyfforddiant gorfodol yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol. Arweiniodd staff cydraddoldeb BIPBC y gwaith o ddatblygu'r pecyn hwn ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth a staff, ac mae cyfres o weithdai'n defnyddio'r un deunyddiau dysgu wedi'u cyflwyno i staff nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur.

Yn ogystal, mae llawer o'n Grwpiau Rhaglen Glinigol yn trefnu diwrnodau hyfforddiant gorfodol yn cynnwys amrywiaeth o bynciau hyfforddiant gorfodol ac mae staff Cydraddoldeb Corfforaethol wedi cefnogi llawer o'r diwrnodau hyn dros y 12 mlynedd diwethaf.

Cafodd digwyddiad hyfforddiant gorfodol ei gynnal gan GRhG y plant yn gynharach eleni. Ymdriniwyd â hyfforddiant cydraddoldeb yn rhan o'r digwyddiad hwn a bu 58 o staff yn bresennol. I'r staff hynny na fuont yn

Ystyriwyd mai pecyn eDdysgu fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol i niferoedd mawr o staff allu manteisio ar yr hyfforddiant angenrheidiol ar amser, ac ar gyflymdra, y gellid ei addasu at amgylchiadau unigol.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae mwy na 5,000 o'n staff wedi cwblhau'r pecyn hyfforddiant eDdysgu yn llwyddiannus sy'n cynrychioli mwy na 30% o'n gweithlu; mae adroddiadau'n dangos cynnydd yn nifer y rheiny sy'n manteisio ar hyfforddiant a gweithredu o ran y Grŵp Rhaglen Glinigol+/Adrannau Cefnogi

Corfforaethol yn cael eu craffu yng nghyfarfodydd chwarterol Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae fersiwn arall wedi'i diweddaru o'r modiwl e-ddysgu yn cael ei datblygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyfredol a'i bod yn adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf o ran deddfwriaeth ac arfer gorau.

Er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn hyderus o ran cwblhau'r cwrs e-ddysgu, mae sesiynau personol ar gael mewn ystafell ddosbarth anffurfiol wedi'i chynnal gan ymarferydd cydraddoldeb

Ffyrdd Eraill a Ddefnyddiwn i Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Er y credwn mai darparu hyfforddiant o ansawdd da a chyfredol sy'n helpu staff i ddeall perthnasedd materion cydraddoldeb a hawliau dynol yn eu swyddi o ddydd i ddydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth, rydym hefyd yn hybu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn llawer o ffyrdd eraill, gan gynnwys:

- Mae ein **gwefan** wedi'i datblygu i ddatblygu gwybodaeth ac i helpu i gyfeirio staff at ffynonellau cymorth a chefnogaeth eraill. Yn dilyn adolygiad mawr yn ystod y flwyddyn, mae'r safle yn dal i gael ei adolygu'n rheolaidd ac mae'n adlewyrchu adborth defnyddwyr o ran cynnwys a fformat. Rydym hefyd yn defnyddio'r wefan i hybu ymgyrchoedd a digwyddiadau eraill y tybiwn y gallai fod gan staff ddiddordeb ynddynt
- Mae staff cydraddoldeb yn mynd i'r holl sesiynau ymsefydlu (Cynefino) staff newydd er mwyn rhoi trosolwg ar ein hymagwedd tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae adborth o'r sesiynau hyn yn gyson gadarnhaol
- Rydym yn dal i ddarparu hyfforddiant mewn cydraddoldeb a hawliau dynol fel rhan o'r Rhaglen Sylfaenol i Feddygon Ymgynghorol (ar gyfer Meddygon Ymgynghorol newydd eu penodi)
- Bob blwyddyn, byddwn yn rhoi rhagarweiniad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol fel rhan o'r rhaglen sylfaenol a weithredir gan Ddeoniaeth Cymru i staff meddygol newydd
- Mae ein **Strwythur Llywodraethu** yn ddull ar gyfer rheoli strategaeth cydraddoldeb a hawliau dynol BIPBC, gan gynnwys rhoi gwybod am feysydd sy'n peri pryder i Gadeiryddion Is-bwyllgorau pob Bwrdd a Phennaeth Staff. Mae hyfforddiant wedi'i dargedu trwy ymagwedd dysgu gweithredol wedi'i roi i Arweinwyr Cydraddoldeb y GRhG er mwyn helpu i ychwanegu at wybodaeth a dealltwriaeth

- Mae staff cydraddoldeb yn parhau i roi hysbysiadau ar y gyfraith achosion ddiweddaraf yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol sy'n cael eu cylchredeg ymysg pob Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Pennaeth Staff/Pennaeth Cynorthwyol Staff a staff priodol eraill yn y sefydliad

Ym mis Chwefror 2014, bu'r GRhG Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn gweithio gyda chydweithwyr o Diverse Cymru i roi dwy sesiwn hyfforddiant wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer staff y GRhG. Y nod trwy roi gwybodaeth a phrofiadau a'u rhannu, oedd sicrhau bod modd i ni greu gwell ddealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth am y materion y mae'r rhai o gymunedau Pobl Dduon ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME) sydd â phroblemau iechyd meddwl yn eu hwynebu. Bu'r sesiynau'n rhyngweithiol ac

Iaith

Yr Iaith Gymraeg

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru. I'r perwyl hwn, ac yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg cynhwysfawr sy'n amlinellu sut bydd yn dod â'r egwyddor honno i rym wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/50099

Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS)

Gwnaeth BIPBC fabwysiadu Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) yn ffurfiol fel ei ddarparwr ffafriedig o wasanaethau dehongli a chyfieithu ym mis Ebrill 2012.
Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth yn esmwyth ac mae adborth a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r broses sydd wedi'i sefydlu rhwng WITS a gwasanaethau gofal iechyd ym mhob lleoliad wedi gwreiddio'n ddwfn ac mae arweiniad o ran gofal eilaidd a chymunedol ynghyd â gofal cychwynnol wedi'u datblygu ac maent wedi'u hymgorffori i arfer erbyn hyn.

Yn 2014, penderfynodd y Bwrdd Iechyd i ymgorffori darparu gwasanaethau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn rhan o ddarpariaeth WTS o 1 Gorffennaf 2014. Mae'r holl arweiniad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r ychwanegiad hwn ac mae cryn waith wedi'i wneud yn BIPBC ac yn y gymuned fyddar i hwyluso cyfnod newid esmwyth. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gomisiynu Gwasanaeth Cymorth Pontio (TSS) trwy Gymdeithas y Byddar Gogledd Cymru am gyfnod o 1 Mawrth 2014 hyd at 31 Mawrth 2015. Nod y gwasanaeth hwn yw ategu cyfnod esmwyth o newid gyda chyn lleied â phosibl o darfu ar ddefnyddwyr BSL a sicrhau na fydd yr un o ddefnyddwyr gwasanaeth BSL o dan anfantais annheg yn ystod y newid neu o dan y trefniadau newydd.

Yn rhan o TSS, caiff gwybodaeth ei chasglu am ddewisiadau defnyddwyr BSL o ran dehonglwr a chaiff y wybodaeth hon ei rhannu, a hynny â chydsyniad defnyddwyr, gydag WITS. Bydd TSS hefyd yn rhoi adborth i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas ag effaith newid i WITS ar ddefnyddwyr BSL ac yn codi ymwybyddiaeth o newid i ddarparwr newydd yng nghymuned pobl sy'n defnyddio iaith arwyddion Prydain.

Hybu Mwy o Gydraddoldeb o ran Cyfeiriadedd Rhywiol

Rydym yn falch o ddatblygiad ein Rhwydwaith Cefnogi Staff LGBT, a phenderfynodd yr aelodau i'w alw'n "Celtic Pride" gan adlewyrchu cynrychiolaeth cenedligrwydd a chyfeiriadedd rhywiol. Datblygwyd logo newydd i helpu gyda hunaniaeth y grŵp ac fe'i hatgynhyrchwyd ar grysau-T a ddarparwyd ar gyfer aelodau a fynychodd Pride Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol mae staff BIPBC wedi cael eu cefnogi i fynychu'r digwyddiad hwn sy'n cynyddu yn ei bwysigrwydd a chytunodd y rhai a fynychodd mai hon oedd y flwyddyn orau eto (gweler y llun ar y clawr blaen).

Ym mis Mai 2014, mynychodd aelodau o Celtic Pride, ynghyd â gwesteion yn BIPBC a'r tu allan iddo, seremoni i godi baner yr enfys yn Ysbyty Gwynedd i ddathlu Diwrnod IDAHOT (Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia a Thrawsffobia).

Margaret Hanson, Is-gadeirydd BIPBC (eistedd yn y canol yn y llun) a gododd y faner yn Ysbyty Gwynedd, codwyd baneri ar yr un diwrnod hefyd yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam.
Mynychodd cynrychiolwyr o Stonewall Cymru, Cyngor Iechyd Cymuned BIPBC a Jenie Dean, Hyrwyddwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Aelod Annibynnol Bwrdd BIPBC y seremoni.

Rydym yn y broses o gyflwyno ein trydydd holiadur Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall Cymru, i'w asesu yn Ionawr 2015. Mae aelodau Celtic Pride wedi gwneud cyfraniadau arwyddocaol at y cyflwyniad eleni, a gafodd ei ddiwygio a'i ddiweddaru'n sylweddol gan Stonewall Cymru i adlewyrchu ymagwedd wahanol tuag at y cwestiynau. Mae aelodau Celtic Pride eisoes yn ystyried nifer o gamau gweithredu a gynlluniwyd i hyrwyddo mwy o gydraddoldeb cyfeiriadedd rhywiol yn ystod y flwyddyn nesaf, gan gynnwys hyrwyddo'r Rhwydwaith yn well ar draws BIPBC a thu hwnt, a threfnu baneri i'w rhoi ar ddesgiau a sticeri enfys yn holl leoliadau BIPBC.

Un o weithrediadau'r Rhwydwaith yw cynghori'r Bwrdd Iechyd ar ddatblygiad polisïau newydd a'r rhai a adolygwyd o safbwynt LGBT.

Mae eleni hefyd wedi gweld datblygiad canllawiau newydd i helpu cefnogi staff trawsrywiol yn BIPBC. Mae'r rhain yn destun ymgynghoriad eang ar hyn o bryd yn BIBPC y tu allan iddo gan gynnwys Celtic Pride.

Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i fodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol

Yn ogystal â'r amcanion a chynlluniau gwasanaeth o ran cydraddoldeb, mae nifer o fentrau eraill cysylltiedig yn cael eu symud ymlaen o fewn y sefydliad a fydd yn ein galluogi i arddangos sut rydym yn symud cydraddoldeb cyfleoedd ymlaen, trwy roi sylw teg i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys dan yr amcan briodol yn Atodiad A, fodd bynnag, mae'r mentrau hyn yn cynnwys:

Gwella Profiad y Claf ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu

Mae tystiolaeth sy'n deillio o ymchwil yn awgrymu'n gyson bod gan bobl ag anableddau dysgu risg uwch o fod ag iechyd corfforol a meddyliol gwael na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae sawl adroddiad cenedlaethol, ymchwiliad cyhoeddus ac archwiliad cyhoeddus i brofiadau pobl ag anableddau dysgu yng ngofal ysbyty llym, wedi amlygu'r angen am weithio ar y cyd pellach rhwng staff gofal iechyd cychwynnol ac eilaidd a'r gwasanaethau anableddau dysgu arbenigol. Rydym yn gweithio at weithredu gwelliannau ym mhrofiad y claf i gleifion ag anableddau dysgu sy'n cael mynediad at wasanaethau ar wardiau cyffredinol mewn ysbytai llym. Sefydlwyd gweithgor y llynedd, cytunwyd ar gylch gorchwyl a datblygwyd set o safonau disgwyliedig, mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o wybodaeth ac ymchwil lleol a chenedlaethol ac mae'n amlygu'r angen am gydweithio pellach rhwng staff gofal iechyd cychwynnol ac eilaidd a'r gwasanaethau anableddau dysgu arbenigol.

Ym mis Ionawr 2014, lansiwyd y 'Bwndel Gofal ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu mewn lleoliad Ysbyty Cyffredinol'. Bydd yn helpu Byrddau Iechyd GIG Cymru i fod yn gyson wyliadwrus ac ymateb i anghenion pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd a gofalwyr, pan fyddant yn cael mynediad at wasanaethau ysbyty cyffredinol. Mae'r bwndel gofal yn nodi camau allweddol, ac os cedwir atynt yn gyson ar gyfer pob claf sydd ag anableddau dysgu, byddant yn sicrhau'r canlynol:

- Bod modd adnabod cleifion ag anableddau dysgu yn gynnar.
- Bod modd cyfathrebu'n effeithiol â chleifion, gofalwyr, y teulu a chlinigwyr.
- Bod modd rhoi gofal a thriniaeth urddasol gan ganolbwyntio ar y claf.
- Bod modd adolygu a chynllunio i ryddhau cleifion.

Mae'r bwndel yn cynnwys sawl cam ar wahanol gyfnodau o arhosiad y claf. Rydym yn gweithio at godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo perchnogaeth y gwaith

hwn gyda Grwpiau Rhaglen Glinigol ac Adrannau Cefnogi Corfforaethol, a fydd yn sail i ddatblygu offer archwilio eleni.

Cefnogi Gofalwyr

Yn 2010, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddf newydd o'r enw Mesur y Gofalwyr. Mae'n gosod dyletswydd arnom i sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu bodloni. Rydym wedi cynhyrchu Strategaeth Ymgynghori a Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Cymru (http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/opendoc/225001) mewn partneriaeth â'r chwe awdurdod lleol a'r sefydliadau cefnogi gofalwyr trydydd sector. Mae'n amlinellu sut bydd yn adnabod gofalwyr mor fuan â phosibl a rhoi'r wybodaeth a chefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Pobl Hŷn

Yn 2011, yn sgil nifer gynyddol o bryderon a fynegwyd gan bobl hŷn ynghylch gofal ysbytai, ymwelodd Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, â phob ysbyty llym yng Nghymru i edrych ar ofal pobl hŷn. Daeth i'r casgliad nad oedd triniaeth rhai pobl hŷn yn ddigonol a gwnaeth ddeuddeg argymhelliad o welliant. Roedd disgwyl i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru gynhyrchu cynllun gweithredu i gwrdd â'r argymhellion a chyflwyno adroddiad cynnydd rheolaidd i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhellion ac mae sawl prosiect yn ei le i gynnal y momentwm. Mae hyn yn cynnwys:

- **Newidiadau mewn amgylchedd wardiau** Gwnaethom gomisiynu adolygiad o amgylcheddau wardiau gan arbenigwr wedi'i leoli ym Mhrifysgol Bangor. Edrychodd ar newidiadau syml i amgylchedd wardiau i helpu pobl hŷn gyda dementia, megis mannau wedi'u codio â lliw a chlociau gydag wynebau mawr. Mae hwn yn flaenoriaeth ar gyfer 2014, ac mae rhaglen yn ei lle ar draws bob ward cleifion mewnol i weithredu'r newidiadau hyn.
- **Cyfathrebu effeithiol** Mae pwyslais ar ddewis iaith mewn hyfforddiant urddas a ddarperir ar gyfer holl fyfyrwyr nyrsio a staff y Bwrdd Iechyd. Gwelliant yn y maes hwn yn ddiweddar fu prynu offer cyfathrebu yn seiliedig ar luniau i gleifion gyda nam ar y synhwyrau, anableddau dysgu neu ddementia.

Hawliau Dynol mewn Gofal Iechyd

Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn falch o gael eu gwahodd i fod yn rhan o'r Rhaglen Hawliau Dynol mewn Gofal Iechyd dan arweiniad Mersey Care NHS Trust ar ran Adran Iechyd Lloegr.

Arweiniodd y rhaglen hon at ddatblygu pecyn offer "Rhoi Hawliau Dynol wrth Wraidd Maeth a Hydradiad". Pwrpas y pecyn offer yw cynorthwyo Prif Nyrsys Wardiau a Nyrsys Mewn Gofal i ddatblygu a defnyddio ymagweddau'n seiliedig ar hawliau dynol wrth gynllunio a darparu gofal. Yn genedlaethol a

rhyngwladol, bu sawl menter a dogfen sy'n gosod y safonau ar gyfer arlwyo ysbyty a maeth cleifion. Fodd bynnag, ni ymddengys fod canllawiau penodol sy'n gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng hydradiad, maeth a hawliau dynol, yn enwedig o ran goblygiadau ar ddarparwyr gwasanaeth yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998.

Cynhyrchwyd y pecyn offer trwy ddefnyddio profiadau defnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a sefydliadau gydag arbenigedd mewn hawliau dynol ac iechyd. Mae'n cael ei hyrwyddo gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, sy'n arweinydd strategol dros Faeth a Gwasanaethau Cleifion, ac mae'n adeiladu ar waith Grwpiau Asesu Maeth a Llwybrau Trawsnewid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Lansiwyd y pecyn offer ar draws PBC ar ddiwedd 2013.

Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau sy'n Agored i Niwed

Yn Ebrill 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru y Safonau newydd ar gyfer Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Penodol sy'n Agored i Niwed. Mae'r Safonau diwygiedig hyn yn seiliedig ar y rhai a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2009 ac maent yn gosod y disgwyliadau ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol yn fwy eglur.

Mae'r Safonau yn gofyn i bob ardal leol gynhyrchu Cynllun Gweithredu Iechyd Pobl Ddigartref a Grwpiau sy'n Agored i Niwed gan ddangos sut byddai'n sicrhau bod modd mynd i'r afael ag anghenion iechyd pobl ddigartref o bob oed a grwpiau penodol sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys:-

- Pobl ddigartref
- Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
- Sipsiwn a Theithwyr
- Camddefnyddwyr Sylweddau
- Ymfudwyr yr UE sy'n ddigartref

Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus yw'r arweinydd a enwir ac ef yw Cadeirydd y grŵp sy'n arwain ar y gwaith hwn; mae ymarfer cwmpasu wedi'i gynnal a nodwyd yr angen i ymgymryd ag asesiad anghenion cadarn. Mae gwaith yn parhau mewn partneriaeth ar hyn.

Gwybodaeth a Chyfathrebu Hygyrch i bobl â Nam ar y Synhwyrau

Mae dyletswydd gyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i ddarparu mynediad cyfartal at wasanaethau gofal iechyd i bobl anabl. Mae'r ddyletswydd hon yn rhagweledol ac mae gofyn i gyrff cyhoeddus fod yn rhagweithiol wrth wneud addasiadau i sicrhau bod pob angen mynediad a chyfathrebu yn cael eu bodloni. Mae cyfathrebu effeithiol a phriodol yn sylfaenol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflawni mewn ffyrdd sy'n hybu urddas a pharch.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod cyfathrebu aneffeithiol yn fater diogelwch cleifion a gall arwain at ganlyniadau iechyd gwaelach.

Ym mis Mai 2013, ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at bob Bwrdd Iechyd i gyflwyno Safonau Cymru Gyfan ar gyfer cyfathrebu hygyrch a gwybodaeth i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau. Pwrpas y Safonau yw sicrhau bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth y bobl sydd â nam ar eu synhwyrau yn cael eu bodloni wrth gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Mae'r Safonau hyn yn berthnasol i oedolion, pobl ifanc a phlant. Ar 5 Rhagfyr 2013, lansiodd y Gweinidog y Safonau'n swyddogol. Mae disgwyl i Fyrddau Iechyd roi cynllun gweithredu ar waith dan gyfrifoldeb swyddog dynodedig sy'n nodi:

- Y darlun presennol o ran cydymffurfiaeth â'r safonau
- Y meysydd lle gall gwelliannau gael eu gwneud yn eithaf sydyn a rhwydd
- Y meysydd hynny o ran darpariaeth gwasanaeth lle mae cydymffurfiaeth â'r safonau yn achosi heriau mwy

Datblygwyd y cynllun ac mae'n nodi polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau, presennol/neu sydd angen eu datblygu, i wneud y newidiadau angenrheidiol i gyflawni'r Safonau.

Ymgymerwyd ag asesiad gwaelodlin o ran cydymffurfiaeth o ran y ffrydiau gwaith canlynol:

- Hyfforddiant
- Mynediad at gefnogaeth cyfathrebu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth trwy Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS)
- Proses atgyfeirio a systemau apwyntiadau
- Cofnodion meddygol, fflagio a rhybuddion
- Darpariaeth, cynnal a chadw a hyfforddiant o ran dolenni clyw
- Amgylchedd ac arwyddion
- Mynediad gwell at y broses pryderon

Nodwyd hwn fel arfer da presennol, meysydd lle gellir gwneud gwelliannau yn eithaf sydyn a meysydd lle mae cydymffurfiaeth yn darparu mwy o heriau. Mae arfer da wedi cael ei nodi yn ystod yr asesiad ac mae'n cynnwys:

- Datblygu canllawiau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i staff sy'n darparu gwybodaeth i staff ar sut i gael mynediad amserol at gefnogaeth cyfathrebu i gleifion a gofalwyr ar draws PBC.
- Canllawiau ar gyfer datblygu a darparu gwybodaeth hygyrch
- Mae canllawiau cyfathrebu ysbyty ar gyfer mannau clinigol wedi cael eu prynu a'u dosbarthu i Fetronau gael eu defnyddio o fewn eu mannau

clinigol. Cyhoeddwyd y Safonau yn eang hefyd ar draws PBC yn ystod rhan o wythnos Cydraddoldeb ac Amrywiaeth eleni ym mis Mai.

- Mae mentrau gwella gwasanaeth yn cynnwys darparu gwasanaeth newydd ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n Fyddar i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Mae fideo i godi ymwybyddiaeth o Rwydwaith Iechyd Meddwl y Byddar, Gogledd Cymru ar gael ar safle rhyngrwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cynhyrchwyd hwn yn Iaith Arwyddion Prydain ac mae'n cynnwys penawdau yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae'r Tîm Mewnblaniadau Cochleaidd yn YGC yn datblygu cynlluniau cyfathrebu unigol i gleifion er mwyn iddynt allu gwneud proffesiynolion yn ymwybodol o'u hanghenion cyfathrebu pan fyddant yn mynychu apwyntiadau ysbyty.
- Mae aelodau o'r grŵp llywio hefyd yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) i archwilio'r broses atgyfeirio electronig o ofal cychwynnol i eilaidd, a'r prosesau cefnogi angenrheidiol i sicrhau bod anghenion cyfathrebu pobl gyda namau ar y synhwyrau yn cael eu nodi wrth eu hatgyfeirio a bod yr wybodaeth hon yn cael ei fflagio i lywio camau gweithredu priodol wrth dderbyn yr atgyfeiriad.
- Cyfathrebwyd y Safonau'n eang ar draws BIPBC a meysydd a nodwyd meysydd ar gyfer gweithredu lleol gan GRhG.
- Mae'r cynllun hyfforddi wedi cael ei gwblhau, grwpiau staff blaenoriaeth wedi'u nodi a hyfforddiant wedi dechrau.
- Mae gwaith wedi dechrau i nodi (lle cytunwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth/claf) anghenion cyfathrebu unigolyn trwy fflagio ar statws claf ar ward yn gyflym a byrddau i godi ymwybyddiaeth gyda staff.
- Mae ystod o wasanaethau cefnogi eraill yn eu lle gan gynnwys y Gwasanaeth Gwirfoddolwyr, Vision Support, Gwasanaeth Cefnogi Cyswllt Clinig Llygaid trwy RNIB.
- Ymgymerwyd ag archwiliad dolen glyw ac eglurwyd rheolaeth dolenni clyw a'u cynnal a chadw.
- Mae egwyddorion cynlluniau cynhwysol yn cael eu cynnwys yng Nghylch Gorchwyl y grwpiau dylunio a defnyddwyr, gan hyrwyddo mynediad cynhwysol yn YGC
- Mae cynlluniau ar gyfer gwella arwyddion ar y gweill. Mae arferion da wedi cael eu cydnabod gan GIG Cymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn seiliedig ar waith cychwynnol gyda chleifion ag anableddau dysgu.
- Datblygwyd system fflagio ar gofnodion papur cleifion i alluogi staff i ddeall anghenion y cleifion pan fyddant yn mynychu am apwyntiad.
- Codwyd y mater o sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gyda rheolwyr practisau Gofal Dechreuol ar draws gogledd Cymru.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau MT lle mae elfennau safonau gofal cychwynnol a heb drefnu ymlaen llaw yn

berthnasol. Mae datganiad sefyllfa yn cael ei ddatblygu ac mae gwelliannau ar y gweill.

Mae Partneriaeth Chwaraeon Anabledd BIPBC yn stori o lwyddiant mawr. Un o'r prif amcanion yw gweithio gyda thimau rheng flaen y GIG i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cyfleoedd a sgôp i gymryd rhan mewn chwaraeon i gleifion

Ymgysylltu â Rheolwyr Practisau Gofal Cychwynnol

Mae mynychu cyfarfodydd Rheolwyr Practis Sirol ar draws gogledd Cymru wedi galluogi'r Tîm Cydraddoldeb i godi ymwybyddiaeth o ddogfen "Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Darparwyr Gwasanaeth Trydydd Parti" a gyhoeddwyd gan Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG, a Safonau Cymru gyfan ar gyfer Gwybodaeth a Chyfathrebu Hygyrch i Bobl â Nam ar y Synhwyrau. Amlygwyd sawl esiampl o arfer da ac mae hyfforddiant cydraddoldeb a chynigiwyd cefnogaeth i gydweithwyr gofal cychwynnol.

Diogelu

Mae lleihau cam-drin yn y cartref, trais yn erbyn merched, trais rhywiol a thrais ar sail anrhydedd yn feysydd targed strategol allweddol ar gyfer agenda Diogelu PBC. Mae'r elfen hon o'r Agenda Diogelu hefyd yn cynnwys meysydd eraill sy'n gysylltiedig â bod yn agored i niwed sy'n cynnwys Gwrth Derfysgaeth PREVENT, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Masnachu mewn Pobl, Trais ar Sail Anrhydedd (HBV), Anffurfio Organau Rhywiol Merched (FGM) a Phriodas dan Orfod (FM). Mae agendâu Cam-drin yn y Cartref, Trais yn Erbyn Merched a Thrais Rhywiol yn effeithio'n uniongyrchol ar Amddiffyn Oedolion ac Amddiffyn Plant. Gellir cael gwybodaeth bellach yn Adroddiad Blynyddol Diogelu (gweler http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/document/225407)

Troseddau Casineb

Fframwaith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu: Lansiwyd Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb gan y Gweinidog dros Gymunedau a Mynd i'r Afael â Thlodi, Jeff Cuthbert ym Mai 2014; mae'n anelu

at fynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb o ran y nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n cynnwys mynd i'r afael â throseddau casineb yng nghyd-destun seibrfwlio, cyfryngau cymdeithasol a barnau eithafol.

Mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru fel Canolfan Cymorth Swyddogol Cenedlaethol i Gymru o ran Adrodd am Droseddau Casineb. Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru Gyfan yn chwilio am fecanwaith a phroses sengl i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cefnogaeth ac yn gallu adrodd am gasineb; felly hyrwyddir gwasanaethau'n lleol ac mae Grwpiau a Sefydliadau Cydraddoldeb Rhanbarthol yn gweithio gyda 'Cymorth i Ddioddefwyr' i ddarparu gwasanaethau dioddefwyr heb orlethu neu ffwndro dioddefwyr.

Mae cynnydd da wedi'i wneud. Mae'r Tîm Cydraddoldeb yn gweithio gyda'r Tîm Diogelu yn PBC a phartneriaid allanol i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith ar draws gogledd Cymru. Mae ymgyrch cyhoeddusrwydd gogledd Cymru cydlynedig ar gyfer wythnos Troseddau Casineb wedi'i chynllunio ar gyfer mis Hydref. Bydd hyfforddiant o ran codi ymwybyddiaeth yn ffurfio rhan o strategaeth hyfforddi diogelu sydd eisoes wedi hen ennill ei blwyf a chaiff ei gyflwyno mewn meysydd risg uchel fel Adrannau Achosion Brys a GRhG Iechyd Meddwl pan gytunir ar systemau a mecanweithiau adrodd clir ar draws gogledd Cymru.

Caffael

Yn gyffredin â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae BIPBC yn rhoi cytundebau gyda sefydliadau yn y trydydd sector a'r sector breifat i ymgymryd â gwaith a/neu ddarparu nwyddau a/neu wasanaethau ar ein rhan.

Mae cynrychiolwyr Cydraddoldeb Corfforaethol BIBPC wedi bod yn rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymru gyfan, a ffurfiwyd i archwilio sut gall arbenigwyr Cydraddoldeb gefnogi cydweithwyr sy'n gweithio i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) - Caffael, i ddeall y dyletswyddau yn well fel eu bod yn gallu darparu'r sicrwydd angenrheidiol am gydymffurfio i'r Byrddau Iechyd. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- Cydadolygiad o ddogfennau a ddefnyddiwyd mewn prosesau Caffael gydag argymhellion ar gyfer gwelliannau i wneud ystyriaethau cydraddoldeb yn fwy eglur, gan gynnwys datblygu grŵp o gwestiynau generig sy'n ymwneud â chydraddoldeb, y gellir eu cynnwys mewn dogfennau tendr fel sy'n briodol.
- Adolygiad o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd i wneud mwy o gysylltiadau eglur â'r dyletswyddau cydraddoldeb nawr wedi'i gwblhau ac mae'r diwygiadau wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Bwyllgor Archwilio BIPBC gydag argymhelliad ar gyfer adolygiadau tebyg i'w gwneud yn y Polisi Caffael;
- Argymhellion ar gyfer lefelau isaf o hyfforddiant i sicrhau bod staff Caffael yn deall gofynion dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn well; trefnwyd gweithdy hyfforddiant peilot ar y cyd ar gyfer staff cydraddoldeb a chaffael sy'n gweithio i sefydliadau sy'n aelodau o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ar gyfer mis Hydref 2014.

Ein gwaith ar y cyd â phartneriaid yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru

Yn ystod 2013/14, fe wnaethom barhau i weithio gydag Arweinwyr Cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Ambiwlans, Parc Cenedlaethol Eryri, Coleg Cambria a Heddlu Gogledd Cymru i rannu arfer da a datblygu mentrau ar y cyd. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2013, lle gwnaethom gymryd y cyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid ar nifer o gyhoeddiadau arfer gorau yn y meysydd canlynol:

- Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ac Ystyriaeth Briodol
- Cydraddoldeb mewn Ysgolion
- Cyfarfodydd a digwyddiadau hygyrch
- Monitro Cydraddoldeb
- Treuliau o ran Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Sut i fod yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau mewn cyrff sector cyhoeddus

Mae'r dogfennau hyn wedi cael eu cyhoeddi bellach ynghyd ag adroddiad ar ddigwyddiad mis Tachwedd ar ein tudalennau gwe- gweler http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/59500

Rydym wedi parhau i ymchwilio i sut gallwn feincnodi data priodol sefydliadau yn ymwneud â chyflogaeth a chyflogau er mwyn nodi unrhyw themâu neu dueddiadau cyffredin a allai arwain at ddatblygu amcanion pellach ar y cyd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gwahodd Dr Alison Parken i annerch y grŵp er mwyn ein diweddaru am ddatblygu Prosiect WAVE (Merched yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi).

Fe gynhaliodd y Rhwydwaith weithdy i ystyried sut y gallwn gefnogi gweithrediad Fframwaith Llywodraeth Cymru ar Droseddau a Digwyddiadau Casineb. Roedd y gweithdy'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau sydd â diddordeb yn cynnwys NWREN a Chymorth i Ddioddefwyr, ac mae gweithrediadau'n cael eu datblygu er mwyn rhoi cymorth i waith ein dau Gydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.

Rydym hefyd wedi comisiynu prosiect bach er mwyn ymchwilio i sut y gallwn fabwysiadu dull gweithredu mwy cyffredin i'r cwestiynau a ddefnyddir o ran monitro cydraddoldeb a gynhaliwyd gan aelod-sefydliadau y mae bwriad iddo gael ei gyhoeddi fel arweiniad pellach o arfer da tua diwedd 2014.

Y Pwyslais i'r Dyfodol

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu mewn perthynas â'n hamcanion cydraddoldeb, a'r hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud i symud yr agenda ymlaen.

Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl sydd â Nam ar eu Synhwyrau

Byddwn yn parhau i fwrw'r cynllun gweithredu ymlaen a gweithio gyda chynrychiolwyr i wneud newidiadau pwysig eleni er mwyn dileu rhai o'r rhwystrau hyn a nodwyd, ac i wella gwasanaethau ar gyfer unigolion sydd â nam ar eu synhwyrau. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y Safonau a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen ag egwyddorion cynllunio cynhwysol a gweithio â chydweithwyr cynllunio a thimau cynllunio i ymgorffori'r rhain yn y broses o ddatblygu gwasanaethau. Byddwn yn gweithio i adolygu arwyddion a datblygu arweiniad er mwyn hybu dull cyson ar draws BIPBC sy'n hygyrch a chynhwysol.

Asesiad Effaith

Byddwn yn ceisio cryfhau'r synergedd rhwng agendâu cydraddoldeb ac agenda safon trwy ddatblygu ein hofferyn asesu effaith integredig ymhellach. Gweithredu ein strategaeth gwella ansawdd yw ein prif flaenoriaeth eleni ac mae'n gyfle i ni ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol yn y byr. Byddwn yn gweithio i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu'r broses asesu effaith ymhellach a datblygu ein hofferyn ymarferol i gynorthwyo a chyfoethogi datblygu polisi.

Hyfforddiant Staff:

Mae hyfforddiant mewn cydraddoldeb a hawliau dynol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Er ein bod yn fodlon ar nifer y staff sydd wedi cwblhau'r pecyn hyfforddiant arloesol a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd yn ystod 2012, mae rhwystrau o hyd o ran rhyddhau staff o adrannau clinigol i fynychu gweithdai neu i ymgymryd â'r hyfforddiant eu hunain. Mae rhai o'n GRhGau wedi cyflawni'r amcan hwn fwy nag eraill ac rydym yn gweithio gyda nhw i helpu i gynllunio atebion sy'n cynnwys presenoldeb mewn "Diwrnodau Hyfforddiant Gorfodol" a drefnir yn y GRhG.

Troseddau casineb

Byddwn yn parhau i weithio gydag Adran Diogelu BIPBC a phartneriaid allanol i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith ar draws Gogledd Cymru a sicrhau ymateb sefydliadol priodol i'r gofynion.

Gwella Profiad y Claf i Bobl ag Anableddau Dysgu

Byddwn yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ac i hyrwyddo perchnogaeth o fwndel gofal Llywodraeth Cymru gyda Grwpiau Rhaglen Glinigol ac Adrannau Cefnogi Corfforaethol, a fydd yn sail i ddatblygu offeryn archwilio.

Gwahaniaethau Rhwng Cyflog y Rhywiau

Mae hyd a lled y gwaith o ddeall mwy am y ffactorau sydd wedi caniatáu cynnydd yn y gwahaniaethau rhwng enillion dynion a merched sy'n gweithio i BIPBC yn eithriadol o heriol a disgwylir y bydd unrhyw newid sylweddol yn y tymor byr yr un mor anodd ei gyrraedd. Gall ffactorau megis gwahanu galwedigaethol, y gellir ei briodoli, o leiaf yn rhannol os nad yn gyfan gwbl, i ffactorau cymdeithasol ac agweddau'n ymwneud â rôl/galwedigaethau dynion a marched gymryd cenedlaethau i gael newid sylweddol. Serch hynny, mae gennym amheuon cryfion bod yna ffactorau sy'n cyfrannu at gynnal gwahaniaethau cyflog sy'n sicr o fewn ein cwmpas i greu newid, yn cynnwys mynediad at weithio oriau hyblyg a fydd yn gwella, yn ein barn ni, o ganlyniad i'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda Chwarae Teg (gweler t11).

Gwybodaeth Cydraddoldeb:

Er ein bod wedi gwneud gwelliannau arwyddocaol i'r wybodaeth rydym ni'n ei chadw am ein staff, nid oes gennym mo'r gallu i gasglu gwybodaeth am staff sy'n drawsrywiol neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae hyn oherwydd cyfyngiadau'r systemau cyflogau a phersonél electronig cenedlaethol (ESR). Rydym yn parhau i wneud argymhellion i ymgorffori'r newidiadau angenrheidiol.

Mae argymhellion tebyg wedi eu gwneud i sicrhau newidiadau i system genedlaethol hysbysebu recriwtio yr ydym yn ei defnyddio (NHS Jobs) gan nad yw hon yn gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr mewnol ac allanol am swyddi felly nid ydym wedi gallu adrodd ar staff sy'n ymgeisio am ddyrchafiad.

Mae rhwystrau arwyddocaol o hyd o ran casglu a dadansoddi gwybodaeth cydraddoldeb am ddefnyddwyr gwasanaeth. Credwn yn rhesymegol mai gyda'r cyswllt cyntaf y dylai hyn ddigwydd, sef gyda Meddyg Teulu'r claf mewn llawer o achosion; fodd bynnag nid yw Meddygon Teulu yn cael eu hariannu i gasglu'r wybodaeth hon a byddai angen gwneud newidiadau i'r cytundeb GMS er mwyn caniatáu i'r gwaith hwn ddigwydd. Bydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n cysylltu'n gyntaf ag un o'r canolfannau llym yn aml wedi bod trwy'r adran achosion brys lle na fydd casglu gwybodaeth am gydraddoldeb yn flaenoriaeth; hyd yn oed lle mae hyn yn bosibl, nid yw'n systemau wedi'u cynllunio i gasglu a storio'r wybodaeth mewn ffordd sy'n hwyluso'r broses dadansoddi gwybodaeth, ac mae'r systemau sy'n dal i gael eu defnyddio ar y tri safle llym yn wahanol i'w gilydd ac nid yw'n bosibl dod â nhw at ei gilydd.

Monitro Cynnydd:

Er ein bod yn gallu adrodd ar nifer o fentrau a gwaith sy'n mynd ymlaen i fynd i'r afael â'r rhwystrau i leihau anghydraddoldeb, mae'r gwahaniaeth y mae'r rhain yn ei wneud i ddefnyddwyr gwasanaeth yn parhau i fod yn anodd iawn eu mesur. Rydym wedi cyflwyno set newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (CPA) ym maes Cydraddoldeb yn ystod 2013/14 sy'n rhoi syniad i ni o ba mor dda y mae ein GRhG a'n Hadranau Cefnogi Corfforaethol yn perfformio yn erbyn mesurau cynnydd penodol; fodd bynnag rydym yn parhau i fod yn ddibynnol ar astudiaethau anghydraddoldeb ehangach (e.e. "Pa mor Deg yw Cymru?") i benderfynu pa mor dda y mae ein hamcanion yn perfformio i gyflawni gwelliannau go iawn mewn canlyniadau.

Atodiadau

		Tudalen
Atodiad A	Cynnydd tuag at Gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb	35
Atodiad B	Gwybodaeth yn ymwneud â'n Gweithlu	43
Atodiad C	Amcanion Cydraddoldeb BIPBC yn ôl Nodweddion Gwarchodedig	44

Atodiad A

Cynnydd tuag at Gyflawni ein Hamcanion

Y Canlyniadau ar gyfer Pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru

Yn dilyn ymchwil ac ymgynghori helaeth, nodwyd y canlyniadau canlynol i'w mabwysiadu ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

- Lleihau anghydraddoldeb o ran **Iechyd**:
- Lleihau anghydraddoldeb o ran **Cyflogaeth**
- Lleihau anghydraddoldeb o ran **Diogelwch** personol
- Lleihau anghydraddoldeb o ran **Cynrychiolaeth a Llais**
- Gwella **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau a'r amgylchedd adeiledig

Yna datblygwyd nifer o amcanion, eto yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori ag ystod o randdeiliaid. Mae'r cynnydd a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i restru o dan bob un o'r amcanion.

11. Amcanion Iechyd

- Cynyddu nifer y bobl, mewn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, sy'n dewis ffyrdd o fyw iach
- Cynyddu nifer y bobl, mewn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd
- Gwella gofal ar gyfer pobl hŷn gan sicrhau eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas
- Gwella nifer y Sipsiwn-Teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ataliol
- Bydd pobl LGB a Thrawsrywiol sy'n derbyn gofal yn cael eu trin â pharch ac urddas
- Gwella gofal iechyd a chanlyniadau i bobl â phroblemau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Prif Bethau a Gyflawnwyd yn ystod 2013/14

Mae gwaith yn parhau mewn partneriaeth i helpu i gyfrannu at ddatblygu Cynllun Gweithredu Iechyd ar gyfer Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed yn unol â Safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwella Iechyd a Lles y Digartref a Grwpiau Penodol sy'n Agored i Niwed. Ymgymerwyd ag ymarfer cwmpasu a nodwyd bod angen cynnal asesiad anghenion cadarn.

Cyflwynwyd papur i'r Bwrdd a oedd yn egluro'r dull o weithredu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl sydd â Nam ar eu Synhwyrau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog a lansiwyd ar y 5 Rhagfyr 2013. Mae Gweithgor Iechyd Hygyrch wedi cael ei ffurfio i ddatblygu cynllun sy'n mynd i'r afael â'r polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau, sy'n bodoli a/neu sydd angen eu datblygu, i effeithio'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn cynhyrchu'r Safonau a llunio cynllun. Mae Grŵp Cynghori Nam ar y Synhwyrau allanol wedi cael ei ffurfio hefyd ac yn cynnwys cynrychiolaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth, RNIB Cymru, Vision Support, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru ac Action on Hearing Loss, mae'r Grŵp yn ceisio llunio cyfeiriad yn ymwneud â gwelliannau a nodwyd.

Rydym wedi ceisio gyrru gwelliannau o ran profiad cleifion yn eu blaen yn cynnwys y rhai ag anableddau dysgu sy'n manteisio ar wasanaethau ar wardiau cyffredinol mewn ysbytai llym. Y llynedd, fe wnaethom sefydlu gweithgor, cytuno ar gylch gorchwyl, a datblygu set o safonau disgwyliedig mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o wybodaeth ac ymchwil lleol a chenedlaethol ac mae'n amlygu'r angen am ragor o weithio ar y cyd rhwng staff gofal iechyd cychwynnol ac eilaidd a gwasanaethau anableddau dysgu arbenigol.

Ym mis Ionawr 2014, lansiwyd ‘Pecyn Gofal ar gyfer Unigolion ag Anabledd Dysgu mewn Lleoliad Ysbyty Cyffredinol’. Rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a hybu perchnogaeth o’r gwaith hwn gyda Grwpiau Rhaglen Glinigol ac Adrannau Cefnogi Corfforaethol.

Rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion Cynllun Gweithredu’r Bobl Hŷn yn cynnwys, adolygu amgylchedd ward gan arbenigwr o Brifysgol Bangor. Roedd yn edrych ar newidiadau syml i amgylchedd ward er mwyn helpu pobl hŷn sydd â dementia, fel ardaloedd wedi eu codio â lliw, a chlociau â wynebau mawr.

2. Amcanion Cyflogaeth

- Cynyddu'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli
- Lleihau anghydraddoldeb o ran cylch cyflogaeth
- Lleihau gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau
- Lleihau'r bwlch cyflogau rhwng y rhywiau
- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o faterion cydraddoldeb a hawliau dynol

Prif Bethau a Gyflawnwyd yn ystod 2013/14

Sefydlu Rhwydwaith Cefnogi Staff Celtic Pride LGBT (gweler t21)

Cyhoeddusrwydd i hyrwyddo, a dangos cefnogaeth y Bwrdd Iechyd i Ddiwrnod IDAHOT yn dilyn seremoni codi baner a gynhaliwyd gan Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd (gweler t21).

Gwaith sylweddol a wnaethpwyd o ddadansoddi data o'r gwahaniaethau cyflogau rhwng y rhywiau, a lansiad prosiect ymchwil pwysig trwy holiaduron a roddwyd i'r holl staff (gweler t10-11).

Gwelliannau sylweddol mewn ansawdd a maint y data cydraddoldeb personol a gedwir am staff y Bwrdd Iechyd drwy ymarferiad puro data sylweddol (gweler t14).

Ymrwymiad i hyfforddi staff trwy ddefnyddio ein hadnodd e-ddysgu pwrpasol a gorfodol ar gydraddoldeb a hawliau dynol, ac mae mwy na 5,000 o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus bellach (gweler t17).

3. Amcanion Diogelwch

- Mwy o adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddu
- Mwy o adrodd ar achosion o gam-drin yn y cartref
- Lleihau nifer y troseddau casineb, aflonyddu a cham-drin yn y cartref

Prif Bethau a Gyflawnwyd yn ystod 2012/13

Rydym wedi cyfrannu at ddatblygu Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru; sef Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb yn ystod digwyddiadau ymgynghori a fynychwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru er mwyn archwilio'r cyfleoedd gweithio ar y cyd yn agosach er mwyn cefnogi gweithrediad y Fframwaith. Fe wnaethom gynnal gweithdy yn ddiweddar a fynychwyd gan aelodau o Rwydwaith Cydraddoleb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, staff Diogelu a Chymorth i Ddioddefwyr a chynrychiolydd o NWREN i drafod y gwaith. Mae cynllun gweithredu i gefnogi Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn cael ei ddatblygu i gefnogi eu gwaith yn y maes hwn (gweler t27)

Yn dilyn gweithredu system i fonitro gwybodaeth cydraddoldeb sy'n cael ei chofnodi yn ein systemau electronig adrodd ar ddigwyddiadau, nodwyd yr angen i roi cyngor ac arweiniad i staff sy'n cael eu difrïo ar sail eu hil gan gleifion a'u perthnasau/gofalwyr. Rydym bellach wedi datblygu canllawiau drafft mewn partneriaeth gyda'n Tîm Diogelu ac ein Rheolwr Achosion o Drais ac Ymddygiad Ymosodol, ac mae ymgynghoriad eang yn cael ei gynnal yn hyn o beth, ar hyn o bryd.

Mae Lleihau Trais yn y Cartref, Trais yn erbyn Merched, Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Anrhydedd yn feysydd targedau strategol allweddol ar gyfer agenda Diogelu BIPBC, mae'r cysylltiadau â Chydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r agenda Diogelu wedi cael eu cryfhau yn BIPBC eleni (gweler t27)

4. Amcanion Cynrychiolaeth a Llais

- Cynyddu nifer y bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol sy'n rhan o gyrff gwneud penderfyniadau
- Gwella ymgysylltiad â phobl o grwpiau gwarchodedig wrth adolygu ac ail-gynllunio gwasanaethau.

Prif Bethau a Gyflawnwyd yn ystod 2013/14

Arfer da: Mae cynrychiolwyr BIPBC yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn â'n Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Ffurfiwyd y grŵp hwn i archwilio cynnydd tuag at yr amcanion yn ein Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2012-16 ac mae'n cynnwys unigolion a sefydliadau

Gweithio ar y cyd â chydweithwyr cydraddoldeb mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru fel rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru (NWPSEN), rydym wedi datblygu a chyhoeddi arweiniad a gwybodaeth ar sut i gyfrannu at gyrff sy'n gwneud penderfyniadau. Dyma bwnc ymgynghoriad ag ystod o randdeiliaid mewn digwyddiad a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2013 ac ers hynny mae wedi cael ei gyhoeddi ar wefannau'r holl aelod-sefydliadau.

Mae cyfarfodydd pellach wedi cael eu cynnal eleni gyda'n Rhwydwaith Rhanddeiliaid Cydraddoldeb yn cynnwys unigolion a grwpiau sy'n cynrychioli unigolion gyda nodweddion gwarchodedig sydd wedi cytuno i weithio â ni i graffu ar ein gwaith yn y maes.

Mae egwyddorion cydraddoldeb yn dylanwadu ar asesiadau, gan gynnwys ymrwymiad cynhwysol a chynrychioliadol sy'n cael eu hymgorffori mewn canllawiau a phrosesau cynllunio o ran gweithgaredd datblygu gwasanaeth ar draws BIPBC.

5. Amcanion Mynediad

- Gwella mynediad at adeiladau trwy fabwysiadu egwyddorion cynllunio cynhwysol
- Nodi a diddymu rhwystrau mynediad at wasanaethau a'u defnyddio, gan gynnwys y rhai a wynebir gan y digartref
- Sicrhau bod systemau cwynion yn hollol hygyrch

Mae BIPBC yn gweithio gyda chynrychiolwyr o'r gymuned fyddar i ddatblygu cerdyn i bobl fyddar ei gario a'i ddefnyddio os bydd arnynt angen

Prif Bethau a Gyflawnwyd yn ystod 2013/14

Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi cael eu hymgorffori yng Nghylch Gorchwyl ar gyfer grwpiau defnyddwyr cynllunio yn hyrwyddo mynediad cynhwysol yn YGC. Codwyd ymwybyddiaeth ymysg cydweithwyr y dylai'r ffordd y mae adeiladau a gofod yn cael eu cynllunio adlewyrchu'r egwyddorion i sicrhau bod cynllun o'r awyrgylch corfforol yn creu lle y gall bawb ei ddefnyddio. Mae cyfarwyddiadau'r RNIB a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar fater mynediad wedi cael ei rannu â Thimau Ystadau a Chynllunio.

Ym mis Ebrill 2013, fe lansiodd Llywodraeth Cymru'r Safonau Newydd ar gyfer Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Penodol sy'n Agored i Niwed. Mae'r Safonau yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ardal leol lunio Cynllun Gweithredu Iechyd Pobl Ddigartref a Grwpiau sy'n Agored i Niwed i sicrhau bod anghenion iechyd pobl ddigartref o bob oedran a grwpiau penodol sy'n agored i niwed yn cael eu nodi.

I weld cynnydd yn erbyn y Safonau am Wybodaeth a Chyfathrebu Hygyrch ar gyfer Unigolion sydd â Nam ar y Synhwyrau (gweler t24).

Mae gwaith yn parhau'n genedlaethol i adolygu a gwella hygyrchedd y broses pryderon a adweinir fel "Gweithio i Wella"; Mae BIPBC wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.

.

6. Amcanion Sefydliadol

- Gwella cydweithio â sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru gan gynnwys datblygu prosesau cyffredin i'w galluogi i gyflawni gofynion dyletswyddau sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru), Rheoliadau 2011.
- Lleihau costau a dyblygu trwy gydweithio a rhannu gwybodaeth ac arfer gorau i hybu cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru.
- Sicrhau bod datblygu gweithredoedd cydraddoldeb yn cael eu cysoni o fewn proses cynllunio busnes arferol trwy eu gwneud yn rhan annatod o ganllawiau cynllunio Grwpiau Rhaglen Glinigol ac Adrannau Cefnogi Corfforaethol.

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn dal i gyfarfod bob mis ac Uwch Reolwr Cydraddoldeb BIPBC yw'r cadeirydd. Gwelir cynnydd o ran y prosiectau gwaith ar y cyd y cytunwyd arnynt

Prif Bethau a Gyflawnwyd yn 2012/13

Cynllun Gweithredol 3 Blynedd BIPBC

Mae gwaith sylweddol ar waith er mwyn datblygu'r blaenoriaethau a fydd yn cyflawni nodau ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, er mwyn llywio'r Cynllun Tair Blynedd. Mae hyn yn cynnwys gorchmynion i leihau anghydraddoldeb iechyd ac anghydraddoldeb. Mae egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol yn sail i'r gwaith hwn ac mae proses Asesu Effaith Cydraddoldeb yn cael ei rhoi ar waith.

Mae amrediad o fentrau ar y cyd yn parhau i wella gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn cynnwys datblygu prosesau cyffredin i'n galluogi i gyrraedd gofynion dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011. Mae aelodau wedi bod yn rhan ynghlwm wrth ddatblygu fframwaith casglu data cydraddoldeb cyffredinol i sefydliadau ar draws Gogledd Cymru ei ddefnyddio, gan ystyried arfer da ac argymhellion dogfen Llywodraeth Cymru "Casglu Data Cydraddoldeb: Safonau wedi'u Cysoni ac Ymarfer Gorau". Bydd hyn yn gwella ein gallu yn y dyfodol i feincnodi rhwng sefydliadau.

Atodiad B

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Gwybodaeth yn ymwneud â'n Gweithlu

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth wedi'i diweddaru a ddarparwyd gan ein staff trwy ymarfer glanhau data mawr i gyflawni; nid yn unig, ein gofynion adrodd ond hefyd i ddangos gwaith sy'n mynd ymlaen i ddatblygu gweithrediadau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd o anghydraddoldeb a nodwyd. Mae'r gwaith yn rhan o'n hymrwymiad yn ein Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2012/16 sydd ar gael ar ein gwefan: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/47421

Mae adroddiadau cyflogaeth a chyflog sydd wedi eu paratoi er mwyn cyrraedd y gofynion Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru ar gael ar ein gwefan: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/63948

Atodiad C Amcanion Cydraddoldeb BIPBC yn ôl Nodweddion Gwarchodedig

		Oed	Anabledd	Ailbennu Rhywedd	Priod a Part. Sifil	Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ethnigrwydd	Crefydd a chred	Rhyw	Cyfeiriadedd Rhywiol
Amcanion Iechyd	• Cynyddu nifer y bobl, o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, sy'n dewis ffordd iach o fyw	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	• Cynyddu nifer y bobl, o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	• Gwella gofal pobl hŷn gan sicrhau eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas	✓	✓				✓			
	• Gwella'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau gofal iechyd ataliol ymysg Sipsiwn-Teithwyr	✓					✓		✓	
	• Bydd pobl LGB a Thrawsrywiol sy'n derbyn gofal yn cael eu trin â pharch ac urddas	✓		✓						✓
	• Gwella gofal iechyd a chanlyniadau pobl â phroblemau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu		✓							
Amcanion Cyflogaeth	• Cynyddu graddfa Cyflogaeth ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	• Lleihau anghydraddoldeb o fewn cylch cyflogaeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	• Lleihau gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau								✓	

		Oed	Anabledd	Ailbennu Rhywedd	Priod a Part. Sifil	Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ethnigrwydd	Crefydd a chred	Rhyw	Cyfeiriadedd Rhywiol
	• Lleihau bwlch cyflog rhwng y rhywiau								✓	
	• Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o faterion cydraddoldeb a hawliau dynol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Amcanion Diogelwch	• Mwy o adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓
	• Mwy o adrodd ar gam-drin yn y cartref								✓	
	• Lleihau nifer y troseddau casineb, aflonyddwch a cham-drin yn y cartref	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓
Amcanion Cynrychiolaeth a Llais	• Cynyddu nifer y bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n rhan o gyrff gwneud penderfyniadau	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	• Gwella ymgysylltiad â phobl o grwpiau gwarchodedig wrth adolygu ac ail-gynllunio gwasanaethau	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Amcanion Mynediad	• Gwella mynediad i adeiladau trwy fabwysiadu egwyddorion cynllunio cynhwysol	✓	✓			✓				
	• Nodi a diddymu rhwystrau mynediad at wasanaethau a'u defnyddio, gan gynnwys y rhai a wynebir gan y digartref	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	• Sicrhau bod systemau pryderon yn hollol hygyrch	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Amcanion Sefydliadol	• Gwella cydweithio â sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru gan gynnwys datblygu prosesau cyffredin i'w galluogi i gyflawni gofynion dyletswyddau sector cyhoeddus o	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

		Oed	Anabledd	Ailbennu Rhywedd	Priod a Part. Sifil	Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ethnigrwydd	Crefydd a chred	Rhyw	Cyfeiriadedd Rhywiol
	dan Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru), Rheoliadau 2011.									
	• Lleihau costau a dyblygiadau trwy gydweithio a rhannu gwybodaeth ac arfer da i hyrwyddo cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru.	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	• Sicrhau bod datblygiadau gweithredoedd cydraddoldeb yn cael eu cysoni o fewn proses cynllunio busnes arferol trwy eu gwneud yn rhan annatod o ganllawiau cynllunio Grwpiau Rhaglen Glinigol ac Adrannau Cefnogi Corfforaethol.	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓